Teen Twitter Takeover fel ffordd arloesol o gyrraedd cynulleidfaoedd newydd a chynyddu mynediad

Catherine McKeag: Rheolwr Prosiect, Kids in Museums

Diwrnod ym mis Awst pan fydd amgueddfeydd ar draws y DU yn trosglwyddo eu cyfrifon Twitter i bobl ifanc yw Teen Twitter Takeover. Bydd amgueddfeydd yn gwahodd pobl ifanc nad ydynt efallai wedi ymweld â hwy o'r blaen i ddod i mewn a mwynhau mynediad breintiedig i'r casgliad. Ar-lein fe fydd y bobl ifanc yn rhannu treftadaeth ddigidol a'u profiadau eu hunain â chynulleidfaoedd newydd.

Hoffem gyfrannu sesiwn bapur sy'n amlinellu sut y mae Teen Twitter Takeover yn cynyddu mynediad ac yn tynnu sylw at syniadau arloesol a ddefnyddir gan bobl ifanc. Byddwn hefyd yn rhannu casgliadau allweddol eraill o'r gwerthusiad terfynol.

Yn 2018 bydd yn bum mlynedd ers cychwyn Teen Twitter Takeover a bob blwyddyn rydym yn cyrraedd mwy o bobl ifanc. Yn 2017, cymerodd mwy na 300 o bobl ifanc ran ar hyd a lled y DU, ac mewn rhai amgueddfeydd rhyngwladol. Rhannwyd cannoedd o drydariadau a gwelodd 321,000 o drydarwyr drydariadau drwy ddefnyddio #takeoverday. Ewch i'n Moment i weld y darnau gorau.